



# Ydych chi'n berson ag anabledd dysgu?



**Os ydych chi gall y ffliw fod yn ddifrifol i chi.** Mae'r ffliw yn haint sy'n cael ei achosi gan germau. Mae'n achosi pethau fel tymheredd, peswch a chur pen.



Mae brechiad rhag y ffliw yn bigiad ar gyfer oedolion. Gallwch gael hwn ym meddygfa eich meddyg teulu neu eich fferyllfa gymunedol.



Bydd plant rhwng dwy ac 17 mlwydd oed yn cael chwistrelliad yn y trwyn. Byddan nhw'n cael hwn ym meddygfa'r meddyg teulu neu yn yr ysgol.



Os oes arnoch chi ofn nodwyddau dywedwch wrth y person sy'n rhoi'r pigiad i chi.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales